

Cerddi Natur

Mae Dŵr Cymru'n gofalu am yr amgylcheddau o'n cwmpas, anifeiliaid a phlanhigion. Mi fuoch chi yn ein Canolfan Ddarganfod a defnyddio map i chwilio am gliwiau yn yr awyr agored. Yn y cyfnod hwn, buoch yn crwydro ein coetir heddychol.

Ewch ati i greu poster barddoniaeth yn cynnwys o leiaf un o bob math o'r cerddi isod.

Math	Cyfarwyddiadau	Enghraifft
Haiku	Cerdd Japaneaidd â thair llinell, wedi'i hysbrydoli gan natur. 5 sillaf 7 sillaf 5 sillaf	A'r meddalwynt yn Chwythu trwy'r coed fe welaf fod Mai'n egino
Tanka	Cerdd Japaneaidd â pum llinell. Mae iddi ddechrau, canol a diwedd. Mae Llinell 3 yn cloi dechrau'r gerdd ac yn dechrau diwedd y gerdd. 5 sillaf 7 sillaf 5 sillaf 7 sillaf 7 sillaf	Cerddaf dros gerrig ar y ffordd i 'mhwll tawel Gwelaf grëyr glas Safaf yn stond a'i wyllo yn cipio pysgodyn bach
Cinquain	Mae gan cinquain bum llinell ac mae'n edrych fel diemwnt. 1 gair (enw) 2 air (ansoddeiriau) 3 gair (berfau) 4 gair (ymadrodd) 1 gair (sy'n golygu yr un peth â llinell 1)	Llyffant Llygadog, gwyrdd, Llamu, hela, ymguddio, Brenin y pwll dŵr, Amffibiad

Meddylwch a fyd natur wrth gyfansoddi'ch cerddi. Sut mae gwneud eich poster yn ddeniadol? Ystyriwch y gosodiad.



Cyfrifwch y sillafau. Edrychwch ar yr enghreifftiau.

Pa fath o atalnodi fydddech chi'n ei ddefnyddio?
A . , ? ! : ; ... ()